**LC1217**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU        LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Health & Social Care (Community Health & Standards) Act 2003 (Commencement No.4) (Wales) Order 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sy'n ymwneud â darparu a chadw rhestrau o bobl sydd â'r hawl i gynnig gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn darpariaethau a fydd yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i lunio contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol a chytundebau gwasanaethau deintyddol personol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i graffu ar ddrafft cynharach o'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd pwyntiau adrodd posibl o dan Reol Sefydlog 11.7(v) yn y drafft presennol.
Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig o dan Reol Sefydlog 11.7(viii) bod y Gorchymyn wedi'i ddrafftio yn Saesneg yn unig. Nid oedd yn ymarferol paratoi'r ddeddfwriaeth yn ddwyieithog ym marn y Gweinidog gan fod y trafodaethau gyda'r proffesiwn deintyddol a Byrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â'r contract wedi parhau'n hwy na'r disgwyl ac mae'n hanfodol bod y newidiadau'n cael eu gweithredu yng Nghymru a Lloegr ar 1 Ebrill 2006. Mae angen hefyd i'r darpariaethau hyn ddod i rym mewn digon o amser i alluogi Byrddau Iechyd Lleol a deintyddion i fynd i gontractau a chytundebau yn barod ar gyfer 1 Ebrill 2006.

**Sylwadau**
Dim

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**7 Chwefror 2006**